POBL • LLEFYDD • FFYNIANT

# Cynllun y Cyngor

## 2025 - 2030







Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council




Cystadleuaeth Dylunio Cynllun y Cyngor Buddugol - Argoed High School

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.

This document is also available in English. See English page on our website.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso i Gynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2025-2030 | 3 |
| Un Cyngor, Ein Gwerthoedd Craidd | 4 |
| Sut mae Ymgynghoriad yn hysbysu Cynllun y Cyngo | 5 |
| Datganiad Lles | 6 |
| Ein Hamcanion Lles 2025-2030 | 7 |
| Gosod ein Blaenoriaethau a Beirniadu ein Perfformiad | 8 |
| Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2025-2030 | 10 |
| Pobl - Mae preswylwyr Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach | 11 |
| Llefydd - Mae Sir y Fflint yn lleoliad mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo | 15 |
| Ffyniant - Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint | 19 |
| Cyllid | 22 |
| Cynllun y Cyngor Rhan 2: sut ydym ni'n mesur cyflawniad | 23 |
| Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu | 23 |

# Croeso i Gynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2025-2030

Mae fersiwn ddiweddaraf Cynllun y Cyngor yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a'r amcanion rydym yn bwriadu eu cyflawni.



**Neal Cockerton**
Prif Weithredwr



**Y Cynghorydd Dave Hughes**
Arweinydd y Cyngor

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ar gyfer ei gymunedau lleol, a Chyngor a gaiff ei arwain a'i gymell gan gyfres o werthoedd cymdeithasol cryf, fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda phwysau cyllidebol cynyddol ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen adolygu a newid ein siwrnai'n barhaus i gyflawni ein hamcanion a chynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn Gyngor blaengar sy'n cael ei lywodraethu'n dda. Rydym yn parhau i berfformio'n dda fel darparwr uniongyrchol a chomisiynydd gwasanaethau cyhoeddus ac fel partneriaid i eraill.

Er bod y Cyngor yn cydnabod bod yna gymaint y gallwn ni ei wneud i ychwanegu gwerth at wasanaethau cyhoeddus a chymunedau Sir y Fflint, rydym wedi cytuno ar dair blaenoriaeth lefel uchel ar gyfer 2025-2030. Mae'r blaenoriaethau hyn (a restrir isod) wedi'u dewis ar sail y meysydd lle gall y Cyngor ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn ynddynt: Mae gan bob blaenoriaeth nifer o amcanion lle rydym yn ceisio dylanwadu eleni ac yn y tymor hirach.

- **Pobl** - Mae preswylwyr Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach
- **Llefydd** - Mae Sir y Fflint yn lleoliad mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo
- **Ffyniant** - Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint

Rydym yn ymddiried bod ein Cynllun yn hysbysu ac yn ysbrydoli, ac y gallwn barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol heddiw ac i'r dyfodol.

# Un Cyngor, Ein Gwerthoedd Craidd

Datblygwyd cyfres o werthoedd sefydliadol er mwyn ei gwneud yn haws i ni weithio gyda'n gilydd drwy ffurfio diwylliant a gweledigaeth y gallwn ni gyd eu rhannu. Maent yn diffinio'r pethau yr ydym yn eu gwneud a sut yr ydym yn eu gwneud nhw. Mae'r ethos o Un Cyngor yn ategu at weledigaeth Prif Swyddogion o Un Cyngor, un tîm.

Mae'r gwerthoedd hyn wrth wraidd popeth a wnawn, maent yn ategu at y ffordd yr ydym yn gweithredu fel sefydliad. Maent yn dylanwadu ar ein dewisiadau a'n hymddygiad - dyma'r edafedd sy'n rhedeg drwy bopeth a wnawn.




| | |
|---|---|
| **Lles** | Rydym yn gofalu am ein hunain, ein gilydd a'r amgylchedd. |
| **Cydraddoldeb** | Rydym yn ymroi i greu gweithle sy'n deg ac yn gynhwysol, sy'n croesawu amrywiaeth ac yn cydnabod cyfraniad a photensial pob unigolyn. |
| **Atebol** | Rydym yn gweithio ar y cyd â'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni pethau ac rydym yn gwneud yr hyn a ddwedwn rydym am ei wneud. |
| **Cefnogol** | Rydym yn gweithio fel un tîm i greu amgylchedd sy'n galluogi ein gweithwyr i weithio'n ddiogel, cadw'n iach a gwarchod eu lles, teimlo o werth a theimlo'n rhan o un sefydliad. |
| **Balchder** | Rydym yn angerddol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i Sir y Fflint a'i phobl. |
| **Uniondeb** | Rydym yn gweithredu'n gyson ac yn deg ac yn datblygu ymddiriedaeth drwy gamau cyfrifol a pherthnasoedd gonest. |
| **Parch** | Rydym yn cyfrif bod gwerth i bawb ac yn trin pobl ag urddas a phroffesiynolde. |
| **Rhagoriaeth** | Byddwn yn datblygu ffyrdd cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni ein hanghenion heddiw ac yn y dyfodol a byddwn yn gweithredu heb oedi os credwn ein bod yn gallu gwneud pethau'n well ar gyfer trigolion Sir y Fflint. |

# Sut mae Ymgynghoriad yn hysbysu Cynllun y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda phwysau cyllidebol cynyddol ac mae'r Cyngor yn cydnabod, er mwyn darparu ein Hamcanion Corfforaethol, bod angen adolygu a newid ein siwrnai'n barhaus i gyflawni ein hamcanion a chynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Gyda hyn mewn golwg, ynghyd ag adborth yn dilyn adolygiad diweddar gan Archwilio Cymru (Gosod Amcanion Lles), a gadarnhaodd rhai pethau yr oeddem eisoes yn ymwybodol ohonynt, penderfynodd y Cyngor gynnal Adolygiad Canol Cynllun o Gynllun y Cyngor 2023-2028 i ystyried pwysau cyllidebol cynyddol, yr argymhellion yn adolygiad Archwilio Cymru a'r ymgynghoriad cyhoeddus, i sicrhau fod barn yr amrywiaeth o bobl yn Sir y Fflint yn cael eu hystyried a bod y cynllun yn cael ei hysbysu gan farn cymunedau lleol Sir y Fflint.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, cynhaliodd y Cyngor nifer o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus a mewnol i'r Cyngor, er mwyn hysbysu datblygiad Cynllun newydd Cyngor Sir y Fflint 2025-30.

Yn ogystal â'r ymgynghoriadau amrywiol a gwblhawyd, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â phobl ifanc mewn perthynas â'r Cynllun newydd.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn fodlon cael adborth am Gynllun y Cyngor a'i ddiwygio unrhyw bryd.



# Datganiad Lles


**Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir.

Ategir y Ddeddf gan saith nod 'lles':

- **Cymru lewyrchus**
- **Cymru gydnerth**
- **Cymru iachach**
- **Cymru sy'n fwy cyfartal**
- **Cymru o gymunedau cydlynus**
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae'n ofynnol bod cyrff y sector cyhoeddus a phartneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i gyflawni'r nodau hyn a gwella lles yng Nghymru. Mae'r saith nod lles a'r pum ffordd o weithio yn gosod diben cyffredinol ar gyfer cyrff cyhoeddus.




Maent hefyd yn ceisio sicrhau y gwneir penderfyniadau gwell drwy:

- Ystyried yr hirdymor
- Atal
- Gweithio integredig
- Gweithio ar y cyd
- Cynnwys pobl o bob oed


Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith nod lles drwy ddilyn y ddolen hon

# Ein Hamcanion Lles 2025-2030

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi nodi tri Amcan Lles fel y manylir isod:

**Un Cyngor**

Sicrhau bod ein holl wasanaethau'n gweithio tuag at nodau a rannir ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.




Mae'r Amcanion Lles hyn wedi cael eu dewis fel y meysydd lle mae'r Cyngor yn credu y gall wneud gwahaniaeth cadarnhaol a'r cyfraniad mwyaf tuag at y nodau lles.

Mae pob un o'r Amcanion Lles yn cyfrannu at bob un, neu sawl un o'r Nodau Lles a byddant yn parhau i gael eu hadolygu. Maent yn adlewyrchu'r 'Effeithiau' yr ydym yn bwriadu eu cyflawni drwy'r camau gweithredu a'r gweithgarwch o fewn pob maes blaenoriaeth.

Mae asesiad o gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles yn cael ei lunio fel rhan o'r perfformiad cyffredinol ar gyfer pob blaenoriaeth. Bydd cynnydd yn cael ei nodi yn Adroddiadau Perfformiad Cynllun y Cyngor, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a bydd yn cael ei nodi o fewn ein Hunanasesiad yn y dyfodol.


Yn ogystal, byddwn yn ystyried y pum dull gweithio, a elwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy, a byddwn yn adrodd arnynt.

# Gosod ein Blaenoriaethau a Beirniadu ein Perfformiad

Y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol sy'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir. Rydym yn cydweithio fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ac yn cyfuno ein hadnoddau er budd Sir y Fflint.

Wrth weithio yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gosod blaenoriaethau ar y cyd a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella lles yn lleol.

Mae gan y Cyngor hefyd nifer penodol o flaenoriaethau iddo ef ei hun fel sefydliad partner unigol. Mae gosod blaenoriaethau'n helpu i ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar y pethau pwysicaf – adleisir y blaenoriaethau hyn yng Nghynlluniau Busnes y Cyngor.



Wrth osod Blaenoriaethau'r Cyngor, mae'n rhaid i ni ystyried nifer o ffactorau o bolisi Llywodraeth Cymru, i ddisgwyliadau ein partneriaid allweddol, i'n cyfrifoldebau cyfreithiol, i farn pobl leol.

Yna, byddwn yn gosod ein targedau, ac yn beirniadu ein perfformiad yn erbyn Blaenoriaethau'r Cyngor gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth feintiol (perfformiad a feirniedir yn ôl niferoedd) ac ansoddol (perfformiad a feirniedir yn ôl adborth, canlyniadau ymgynghoriad ac ati). Mae rhai o'n hamcanion yn ymwneud â chreu cynlluniau i gyflawni amcanion tymor hirach. Bydd y rhain yn cael eu datblygu o fewn y flwyddyn, ac yn cael eu hystyried fel rhan o raglenni gwaith i'r dyfodol ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac yn arwain ynddynt eu hunain at ymrwymiadau a chamau gweithredu tymor hirach.

I'n helpu i wybod pa mor dda rydym yn ei wneud o ran cwrdd â disgwyliadau ein blaenoriaethau, mae gennym gyfres o 'gamau gweithredu a mesurau' sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gennym. Mae'r mesuryddion perfformiad hyn wedi'u nodi ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn a manylir arnynt yn y ddogfen ategol 'Cynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n Mesur Cyflawniad?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pa mor dda rydym wedi perfformio yn erbyn ein deilliannau mewn dwy ffordd: adroddiadau rheolaidd i Gabinet a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor; a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a ddylai gael ei gyhoeddi yn yr hydref.



# Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2025-2030

| Amcan Lles | Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor | Beth yw ein Nod / Ein Hamcanion |
|---|---|---|
| Mae preswylwyr Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach | Pobl | Lleihau effaith tlodi ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir y Fflint<br>Galluogi darpariaeth tai cywir yn y lleoliadau cywir<br>Helpu pobl i gael mynediad at gefnogaeth a gwella eu lles<br>Cefnogi pobl i gadw eu tai, byw yn dda, sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byr ac na fydd digwydd eto<br>Galluogi dysgu llwyddiannus a chyrhaeddiad<br>Deall anghenion a blaenoriaethau pobl drwy ymgysylltu'n effeithiol |
| Mae Sir y Fflint yn lleoliad mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo | Llefydd | Galluogi dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy ar gyfer teithiau dyddiol pobl<br>Cefnogi pobl a busnesau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol<br>Adfywio canol trefi a mannau gwyrdd i gefnogi lles lleol a chyflogaeth<br>Cadw ein rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da a diogel<br>Cefnogi ein cymunedau i wella eu hardaloedd lleol a chreu amgylchedd glanach, gwyrddach ac iachach<br>Parhau â'n taith i ddod yn Gyngor di-garbon net gan ddylanwadu ar ein cymunedau i weithredu ar newid hinsawdd<br>Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli, arloesol a chynhwysol |
| Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint | Ffyniant | Denu buddsoddiad busnes i hyrwyddo cynaliadwyedd a thwf swyddi<br>Archwilio ffyrdd o gynhyrchu incwm newydd ac ychwanegol<br>Cefnogi pobl i gael mynediad at gyfleoedd i weithio a datblygu<br>Datblygu buddion economi ymwelwyr<br>Cyngor a Reolir yn Dda |

# **Pobl** - Mae preswylwyr Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach

## Lleihau effaith tlodi ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir y Fflint

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Sicrhau fod gan ysgolion Gynllun Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion a'u bod yn gallu gwerthuso ei effaith
- Cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol drwy Gymorthfeydd Digidol
- Sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn cynnal y Safonau Ansawdd Tai Cymru cyfredol
- Gorffen y cynllun ar gyfer datgarboneiddio cartrefi'r Cyngor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod eu heffeithlonrwydd thermol yn cael ei optimeiddio a bod cost gwresogi cartrefi yn cael ei lleihau
- Sicrhau fod unrhyw stoc tai cymdeithasol newydd yn bodloni sgôr A effeithlonrwydd ynni safonol y Gofynion Ansawdd Datblygu
- Darparu cyngor effeithlonrwydd ynni a gwelliannau i gartrefi er mwyn lleihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles
- Sicrhau bod gymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y cynllun Taliad Disgresiwn at Gostau Tai a chefnogaeth ariannol arall
- Sicrhau bod yr hawl i gael budd-daliadau yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl mewn ffordd amserol drwy brosesu hawliau'n effeithlon
- Diffinio a mapio gwytnwch cymunedol o fewn Sir y Fflint

## Deall anghenion a blaenoriaethau pobl drwy ymgysylltu'n effeithiol

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Gweithredu'r Adolygiad Tai Gwarchod i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion tenantiaid presennol a darpar denantiaid



## Galluogi darpariaeth tai cywir yn y lleoliadau cywir

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Datblygu Strategaeth Tai Newydd 2025-2030
- Gweithredu'r Adolygiad Tai Gwarchod i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion tenantiaid presennol a darpar denantiaid
- Cynyddu stoc drwy ddatblygu tai cymdeithasol a thai fforddiadwy newydd
- Cynyddu argaeledd llety ar gyfer y rhai sy'n profi digartrefedd

## Cefnogi pobl i gadw eu tai, byw yn dda, sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byr ac na fydd digwydd eto

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Comisiynu ystod eang o gymorth mewn perthynas â thai, sy'n bodloni anghenion pobl Sir y Fflint
- Darparu'r Cynllun Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd
- Gweithredu Cynllun Prydlesu Cymru
- Cynyddu argaeledd llety ar gyfer y rhai sy'n profi digartrefedd
- Darparu addasiadau ar gyfer pobl anabl yn unol â Safonau Llywodraeth Cymru
- Gwella safonau yn y sector rhentu preifat drwy gyflwyno 'Trwyddedu Ychwanegol' a fydd yn helpu i reoli Tai Amlfeddiannaeth (HMO) llai
- Cynnal fframwaith contractwr drwy feincnodi, darparu'r Cynllun Gweithredu Rheoli Tai Gwag ac argymhellion archwilio



## Helpu pobl i gael mynediad at gefnogaeth a gwella eu lles

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**


- Comisiynu ystod eang o gymorth mewn perthynas â thai, sy'n bodloni anghenion pobl Sir y Fflint
- Darparu'r Cynllun Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd
- Darparu addasiadau ar gyfer pobl anabl yn unol â Safonau Llywodraeth Cymru
- Sicrhau bod gymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y cynllun Taliad Disgresiwn at Gostau Tai a chefnogaeth ariannol arall
- Sicrhau bod yr hawl i gael budd-daliadau yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl mewn ffordd amserol drwy brosesu hawliau'n effeithlon
- Cyflawni'r targed ymestyn gofal plant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru
- Tyfu a hyrwyddo gwasanaeth maethu mewnol y Cyngor i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal
- Hyrwyddo'r defnydd o Stori'r Ymennydd Rhydychen a deall gwyddoniaeth yr ymennydd mewn perthynas â phrofiadau niweidiol a chadarnhaol ar ymennydd sy'n datblygu
- Cynyddu gallu'r Cyngor i ddarparu gofal preswyl o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal
- Darparu mynediad prydlon at adnoddau lles a chymunedol drwy wybodaeth ddigidol ehangach a darparu cyngor, cymorth a chyfeirio at gefnogaeth
- Ymestyn y defnydd o'r dull datblygu cefnogaeth sy'n defnyddio dull yn seiliedig ar gryfderau i helpu pobl i fod yn fwy annibynnol
- Cynnig cyfleoedd dydd a gwaith ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth, ac anghenion iechyd meddwl yng Nghoed y Ddraig, canolfan iechyd a gofal cymdeithasol newydd
- Gwella cefnogaeth i ofalwyr drwy gynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth brydlon
- Gweithredu gwasanaeth Therapi Amlsystemig i ddatblygu gwytnwch teuluol a helpu teuluoedd i fod yn fwy hunan-ddibynnol, gan leihau'r angen am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol
- Agor 12 o wlâu ailalluogi newydd yng Nghartref Gofal Preswyl Tŷ Croes Atti mewn partneriaeth ag Iechyd
- Diffinio a mapio gwytnwch cymunedol o fewn Sir y Fflint



## Galluogi dysgu llwyddiannus a chyrhaeddiad

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Cwblhau blwyddyn 3 o'r camau strategol o fewn cynllun gweithredu 5 mlynedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Adolygu ein dull a'n gweithdrefnau strategol mewn perthynas ag addysg oni bai am yn yr ysgol
- Datblygu Strategaeth Berthyn i hyrwyddo, cefnogi a llywio arferion cynhwysol ar draws ein rhwydwaith a'n gwasanaethau addysg
- Parhau i ddatblygu llwybr sgiliau a chyflogaeth i'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn sicrhau dull cynaliadwy ar gyfer darparu gwaith ieuenctid a chwarae o ansawdd uchel
- Datblygu'r rhaglen o gyfleoedd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cefnogi addysg barhaus ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliad gwaith ieuenctid
- Datblygu cynnig cynhwysol gan gynnwys chwarae mynediad agored, clybiau pontio, clybiau ieuenctid mynediad agored, gwaith allgymorth a datgysylltiedig a darpariaeth ar-lein
- Cwblhau datblygiad y dull 'Sir y Fflint Ifanc'
- Sicrhau fod gan ysgolion Gynllun Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion a'u bod yn gallu gwerthuso ei effaith
- Gweithredu'r dull diwygiedig ar gyfer gwella ysgolion
- Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr CA4
- Lleihau gwaharddiadau a chynyddu presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
- Datblygu ceisiadau strategol ar gyfer y cam nesaf o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i gynyddu lefel y ddarpariaeth fewnol a cheisio gostwng dibyniaeth ar ddarpariaeth tu hwnt i'r sir
- Hyrwyddo'r defnydd o Stori'r Ymennydd Rhydychen a deall gwyddoniaeth yr ymennydd mewn perthynas â phrofiadau niweidiol a chadarnhaol ar ymennydd sy'n datblygu



# **Mae Sir y Fflint yn lleoliad** mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo

## Galluogi dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy ar gyfer teithiau dyddiol pobl

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan ganolbwyntio ar sicrhau gwell mynediad i bawb a darparu'r grant gwella mynediad
- Cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o ran cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru
- Hyrwyddo teithio llesol a datblygu rhwydwaith cerdded a beicio'r sir yn unol â'r Siarter Teithio Iach
- Gweithredu'r eithriadau 20mya ar draws y sir yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru: Gosod terfynau cyflymder 30mya ar ffyrdd cyfyngedig

## Cadw ein rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da a diogel

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Gweithredu'r eithriadau 20mya ar draws y sir yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru: Gosod terfynau cyflymder 30mya ar ffyrdd cyfyngedig

## Cefnogi pobl a busnesau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Adolygu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor
- Nodi prosiectau i gefnogi uchelgeisiau addasu hinsawdd ymhellach gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.

## Adfywio canol trefi a mannau gwyrdd i gefnogi lles lleol a chyflogaeth

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Annog a chefnogi buddsoddiad mewn eiddo canol tref i hwyluso defnydd mwy cynaliadwy a chynnwys gwelliannau i'r amgylchedd
- Ymgysylltu â busnesau bach canol tref a hyrwyddo'r pecynnau cefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw
- Cefnogi marchnadoedd stryd a dan do'r Sir i ffynnu a thyfu
- Helpu i greu unedau preswyl mewn canol trefi
- Datblygu menter ailddefnyddio cymunedol mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ac yng nghanol trefi



## Cefnogi ein cymunedau i wella eu hardaloedd lleol a chreu amgylchedd glanach, gwyrddach ac iachach

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Gwella'r amgylchedd naturiol trwy gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Darparu cynnydd mewn brigdwf fel rhan o'r Cynllun Coetir a Choed Dinesig
- Cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan ganolbwyntio ar sicrhau gwell mynediad i bawb a darparu'r grant gwella mynediad
- Datblygu ac adolygu'r Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn
- Darparu Rhaglen Ffyniant Gyffredin 2 i ddatblygu Cynllun Rheoli Blwyddyn 1 Parc Arfordir Sir y Fflint
- Cefnogi Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas i ddarparu eu Strategaeth 10 mlynedd drwy ddarparu Cyllid Ffyniant Gyffredin 2
- Gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ymgysylltu â grwpiau a arweinir gan y gymuned trwy ddatblygu mentrau ailgylchu ac ansawdd yr amgylchedd leol
- Lleihau gwastraff cyffredinol yn Sir y Fflint a chynyddu cyfraddau ailddefnyddio er mwyn lleihau gwastraff
- Cynyddu'r gyfradd ailgylchu i 70% a thu hwnt erbyn 2024/25 er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn bodloni targedau Llywodraeth Cymru, osgoi gwaredu deunyddiau yn ddiangen, hyrwyddo economi gylchol a bodloni targedau carbon sero net
- Cyfathrebu â phreswylwyr a busnesau ynglŷn â sut y gallant leihau eu holion traed carbon drwy leihau gwastraff, ei ailddefnyddio a'i ailgylchu
- Darparu gwasanaethau ailgylchu effeithiol ac effeithlon sy'n diogelu ansawdd y deunydd a gesglir ac yn sicrhau y gellir ymateb i dwf mewn gwastraff yn y dyfodol
- Gorfodi polisïau gwastraff a gweithgareddau anghyfreithlon megis tipio anghyfreithlon mewn modd teg a chadarn



## Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli, arloesol a chynhwysol

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Cwblhau'r gwaith o adeiladu campws carbon niwtral 3-16 yn Mynydd Isa
- Datblygu ceisiadau strategol ar gyfer ymestyn darpariaeth arbenigol mewnol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- Dechrau ar waith adeiladu ac ailwampio Ysgol Gynradd Drury
- Dechrau'r opsiynau datblygu dylunio ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Bwcle / Mynydd Isa
- Cwblhau'r gwaith adeiladu ar gyfer Ysgol Croes Atti, y Fflint
- Datblygu prosiectau Cymunedau Cynaliadwy Band B Llywodraeth Cymru o fewn y Rhaglen Buddsoddi mewn Dysgu
- Adolygu ein dull a'n gweithdrefnau strategol mewn perthynas ag addysg yn hytrach nag yn yr ysgol
- Dechrau ceisiadau statudol ar gyfer uno Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a Saltney Ferry
- Dechrau datblygu dyluniadau ar gyfer ailwampio ysgol uwchradd Dewi Sant, Saltney
- Cwblhau cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cam datblygu'r Gwasanaeth Archifau ar y Cyd
- Cyflawni'r targed ehangu gofal plant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2 flwydd oed, Dechrau'n Deg, Estyn Allan Dechrau'n Deg a gofal plant 3-4 oed a chymorth ychwanegol a pharhau â'r rhaglenni cyfalaf gofal plant



## Parhau â'n taith i ddod yn Gyngor di-garbon net gan ddylanwadu ar ein cymunedau i weithredu ar newid hinsawdd

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Dechrau ar waith adeiladu ac ailwampio Ysgol Gynradd Drury
- Cwblhau'r gwaith adeiladu ar gyfer Ysgol Croes Atti, y Fflint
- Sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn cynnal Safonau Ansawdd Tai cyfredol Cymru
- Gorffen y cynllun ar gyfer datgarboneiddio cartrefi'r Cyngor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod eu heffeithlonrwydd thermol yn cael ei optimeiddio a bod cost gwresogi cartrefi yn cael ei lleihau
- Sicrhau fod unrhyw stoc tai cymdeithasol newydd yn bodloni sgôr A effeithlonrwydd ynni safonol y Gofynion Ansawdd Datblygu
- Bod yn Gyngor di garbon net erbyn 2030 a chefnogi camau gweithredu datgarboneiddio ehangach ledled y Sir
- Darparu cynnydd mewn brigdwf fel rhan o'r Cynllun Coetir a Choed Dinesig
- Cefnogi busnesau lleol yn eu hymdrechion i ostwng eu hôl-troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- Sicrhau bod newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau allweddol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor
- Lleihau effaith ein fflyd ar yr amgylchedd drwy ddechrau defnyddio cerbydau isel iawn eu hallyriadau
- Cefnogi datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus
- Cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o ran cyflawni'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru
- Hyrwyddo teithio llesol a datblygu rhwydwaith cerdded a beicio'r sir yn unol â'r Siarter Teithio Iach
- Gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ymgysylltu â grwpiau a arweinir gan y gymuned trwy ddatblygu mentrau ailgylchu ac ansawdd yr amgylchedd leol
- Datblygu menter ailddefnyddio cymunedol mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ac yng nghanol trefi
- Lleihau gwastraff cyffredinol yn Sir y Fflint a chynyddu cyfraddau ailddefnyddio er mwyn lleihau gwastraff
- Cynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% a thu hwnt er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni targedau Llywodraeth Cymru, osgoi gwaredu deunyddiau yn ddiangen, hyrwyddo economi gylchol a bodloni targedau carbon sero net
- Cyfathrebu â phreswylwyr a busnesau ynglŷn â sut y gallant leihau eu holion traed carbon drwy leihau gwastraff, ei ailddefnyddio a'i ailgylchu
- Datblygu isadeiledd gwastraff sy'n cyflawni'r targedau di-garbon net ac yn ein galluogi i ddatgarboneiddio ein gweithrediadau
- Darparu gwasanaethau ailgylchu effeithiol ac effeithlon sy'n diogelu ansawdd y deunydd a gesglir ac yn sicrhau y gellir ymateb i dwf mewn gwastraff yn y dyfodol
- Gorfodi polisïau gwastraff a gweithgareddau anghyfreithlon megis tipio anghyfreithlon mewn modd teg a chadarn
- Cynnal fframwaith contractwr drwy feincnodi, darparu'r Cynllun Gweithredu Rheoli Tai Gwag ac argymhellion archwilio

# **Ffyniant** - Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint

## Denu buddsoddiad busnes i hyrwyddo cynaliadwyedd a thwf swyddi

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Cefnogi busnesau bach a/neu lleol i ymgysylltu â chyfleoedd caffael y sector cyhoeddus
- Cynyddu nifer y busnesau cymdeithasol sy'n gweithredu yn Sir y Fflint, a chynyddu'r buddion y maent yn eu cyflawni
- Adolygu Strategaeth yr Ystâd Ddiwydiannol (fesul ardal)
- Gwella cysylltedd digidol ar draws y Sir ar gyfer busnesau a phreswylwyr
- Gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddatblygu a gweithredu rhaglen y Parth Buddsoddi i ddatblygu ar lwyddiant y sector gweithgynhyrchu uwch

## Datblygu buddion economi ymwelwyr

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Cefnogi twf a datblygiad y sector twristiaeth a lletygarwch
- Datblygu a darparu prosiectau i wella isadeiledd ar gyfer ymwelwyr
- Cefnogi Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas i ddarparu eu Strategaeth 10 mlynedd drwy ddarparu Cyllid Ffyniant Gyffredin 2
- Darparu Rhaglen Ffyniant Gyffredin 2 i ddatblygu Cynllun Rheoli Blwyddyn 1 Parc Arfordir Sir y Fflint



## Archwilio ffyrdd o gynhyrchu incwm newydd ac ychwanegol

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Cwblhau adolygiad o ffioedd rhent Ystadau Masnachol
- Cynnal Adolygiad o Strategaeth yr Ystâd Ddiwydiannol (fesul ardal)
- Sicrhau bod anghenion cyllido'r Cyngor ar gyfer y tymor canolig yn cael eu diwallu trwy gynllunio ariannol
- Cefnogi datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus
- Adolygu ffioedd yn barhaus gyda'r nod o adfer ffioedd a chynhyrchu incwm

## Cefnogi pobl i gael mynediad at gyfleoedd i weithio a datblygu

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Parhau i ddatblygu llwybr sgiliau a chyflogaeth i'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn sicrhau dull cynaliadwy ar gyfer darparu gwaith ieuenctid a chwarae o ansawdd uchel
- Datblygu'r rhaglen o gyfleoedd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cefnogi addysg barhaus ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliad gwaith ieuenctid
- Cydlynu dull amlasiantaeth i gefnogi busnesau i recriwtio pobl o grwpiau sydd dan anfantais
- Cyflwyno rhaglenni mentora a chymorth ehangach i gynorthwyo pobl ddifreintiedig i ailgysylltu â'r farchnad lafur
- Datblygu cyflogaeth â chefnogaeth fel opsiwn amgen i ddarpariaeth canolfan ddydd traddodiadol
- Cynnig cyfleoedd dydd a gwaith ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth, ac anghenion iechyd meddwl yng Nghoed y Ddraig, canolfan iechyd a gofal cymdeithasol newydd



## Cyngor a Reolir yn Dda

**Sut ydym ni'n mynd i gyflawni hyn:**

- Sicrhau bod anghenion cyllido'r Cyngor ar gyfer y tymor canolig yn cael eu diwallu trwy gynllunio ariannol
- Sicrhau fod trefniadau monitro cadarn ar waith ar gyfer refeniw a chyfalaf
- Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal gan y Cyngor
- Defnyddio data fel ased corfforaethol allweddol, gan gymell penderfyniadau'n seiliedig ar ddata
- Gweithredu model cyflog newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio
- Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth.
- Hyrwyddo Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor i gynyddu defnydd
- Cynyddu lefel y Gymraeg ar draws y sefydliad
- Adolygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg
- Sicrhau fod pob portffolio'n cwblhau hunanasesiad blynyddol yn erbyn safonau'r Gymraeg a rhoi Cynllun Gweithredu ar waith er mwyn gwella
- Datblygu cynllun a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer ailddatblygu safle Neuadd y Sir
- Cyfeirio at strategaeth dwf y CDLl yn fuan yn y gwaith o lunio Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru
- Cefnogi ymgyrch y Cyngor ar gyfer trawsnewid digidol drwy ymestyn defnydd Gwasanaethau Cymdeithasol o dechnoleg i gefnogi arferion gwaith cymdeithasol ac ategu at ofal a chefnogaeth



CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# Cyllid

Yn yr un modd â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu hinsawdd economaidd ansicr.

Mae ar y Cyngor angen rheoli ei gyllid yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor yn ogystal â sicrhau gwytnwch ariannol drwy ymdrin â datblygiadau ariannol annisgwyl ar hyd y ffordd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r setliadau ariannol yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, mae ymrwymiad cenedlaethol i geisio darparu hyn o fewn setliad 2026-2027 yn dilyn Adolygiadau Gwariant y DU yn 2025.

Er gwaethaf y cefndir economaidd ansicr hwn, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy eu dyrannu i feysydd o angen a galw uchel, ac i feysydd blaenoriaeth lle bo cyllid ar gael.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod y bydd y Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol i'r dyfodol i fodloni ein dyletswydd statudol o osod cyllideb gyfreithlon a chytbwys. Mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o gynyddiadau mawr mewn meysydd gwasanaeth, yn arbennig gwasanaethau gofal cymdeithasol a digartrefedd a gostyngiad gwirioneddol parhaus mewn cyllid cenedlaethol.

Mae'r Cyngor wedi gosod amserlen y gyllideb yn barod at yr heriau ariannol sylweddol i'r dyfodol a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2025 ar y gyllideb ychwanegol ofynnol a ragwelir ar gyfer 2026-2027 a thu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys pwysau cyllidebol a nodwyd gan Bortffolios drwy eu proses gynllunio gwasanaethau a bydd dolenni perthnasol i Gynllun y Cyngor ac amcanion lles yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses gyllideb flynyddol.

Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o ran ymgynghori ar y gyllideb ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar hyn o bryd.



# Cynllun y Cyngor Rhan 2: Sut ydym ni'n mesur cyflawniad

Mae'r ddogfen Cynllun y Cyngor Rhan 2 yn ddogfen ategol i Gynllun y Cyngor ac yn darparu mwy o fanylion ynglŷn â'r mesurau a'r targedau rydym wedi'u gosod ar gyfer ein hunain i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun y Cyngor.

# Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Fel sefydliad cyhoeddus, mae'r Cyngor yn cael ei archwilio'n rheolaidd i asesu a herio ei berfformiad a'i effeithiolrwydd. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n bennaf gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae'r Cyngor yn paratoi crynodeb blynyddol o'r holl weithgarwch archwilio a rheoleiddio allanol. Cafodd yr un diwethaf ei lunio ym mis Mawrth 2025 a chafodd ei ystyried gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ym mis Ebrill 2025. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o astudiaethau lleol a chenedlaethol ynghyd ag ymateb y Cyngor.

